

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd am 7yh 15/4/2021 drwy gynhadledd fideo.
Minutes of the Full Council meeting held at 7pm 15/4/2021 by video conference.**

Yn Bresennol/Present: Derek Owen, Enid Jones, Carys Davies, Vic Ensor, Brian Potter, Elfed Jones, Tim Turner

Wrth Law/In attendance: Carli Evans Thau (Clerc/Clerk), Angharad Davies (Cadno Communications), Grant Folley (EDF-R), Christian Rohman (EDF-R)

Ymddiheuriadau/Apologies: Cyng/Cllr Aled Morris Jones, Cyng/Cllr Richard Griffiths, Cyng/Cllr Richard Jones

1 Croeso/Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Derek Owen a bu croesawu pawb oedd yn bresennol. Cyn cychwyn y cyfarfod bu munud o dawelwch er cof am Frank Egan, ffrind da, cydweithiwr ac aelod o'r cyngor.

Derek Owen chaired the meeting and welcomed all present. Before commencing the meeting proper a minute's silence was held in memory of Frank Egan, a good friend, colleague and a member of the council.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest

Enid Jones – fferm arae haul/solar farm

Elfed Jones – cais cynllunio Ger y Mor planning application

3 EDF Porthwen

Croesawyd cynrychiolwyr prosiect Arae Haul Porthwen. Diolchwyd iddynt am anfon cyflwyniad er gwybodaeth cyn y cyfarfod.

Cadarnhawyd bod y cwmni wedi prynnu'r hawliau ar gyfer prosiect arae haul gan Countryside Renewables a bod caniatad cynllunio wedi ei gymeradwyo eisioes. Bu'r cynrychiolwyr gyflwyno eu hunain a'u rol yn y datblygiad.

Cafwyd wybod bod y cwmni yn y broses o gyfarfod gyda gwahanol rhanddeilwyr a bydd grwp prosiect yn cael ei ffurfio yn fuan gyda gwahanol gynrychiolwyr. Bu cydnabod bod peth gwrthwynebiad i'r prosiect yn wreiddiol pan fu Countryside Renewables yn ei ddatblygu.

Trafodwyd yn gryno budd cymunedol. Cadarnhawyd bod EDF am gadw at y cytundeb a wnaed gyda'r ysgolion, ond hefyd yn edrych ar wahanol becynnau posib eraill i'r cymunedau agosaf. Pwysleiswyd bod treth busnes yn cael ei dalu i'r llywodraeth ac nid i'r gymuned leol.

Nodwyd na fyddai'r prosiect yn gyflogwr mawr yn yr ardal. Disgwylir 2-3 swydd cynnal a chadw. Bydd staff arbennigol wedi eu lleoli yn y ganolfan ynni adnewyddadwy yn Aberystwyth (hefyd yn cynnal tyrbinau EDF)

Cadarhawyd ffiniau'r prosiect gan nodi bod peth amrywiaeth oherwydd data archaeolegol yn rhan deheuol y safle gwreiddiol. Cadarnhawyd bydd mynediad i'r safle o'r A5025 ac allan yng ngwaelod y safle. Bu cydnabod bod angen gwelliannau i'r lonydd gan gynnwys manau pasio ac aros. Bu nodi bod rhan o'r safle wedi ei gadw heb baneli arae haul oherwydd tyrbinau Rhyd y Groes a'r angen i'w cynnal.

Disgwylir i waith paratoi ddechrau ar y safle cyn diwedd mis 2021, gyda'r safle wedi ei ddatblygu ac yn ymuno a'r grid yn cynhyrchu ynni erbyn Medi 2022.

Darllennwyd ebost oedd wedi ei dderbyn gan Aled Morris Jones yn amlinellu nifer o bryderon oedd wedi eu nodi pan bu gyflwyno'r cais yn wreiddiol. Nododd Derek Owen ei fod wedi bod ynghlwm a thrafodaethau budd cymunedol gyda'r cwmni, ac nad oedd cefnogaeth i'r ysgolion wedi ei grybwl gan y cyngor cymuned. Bu Grant Folley gydnabod bod nifer o'r pwyntiau a nodwyd gan Aled Morris Jones eisioes yn cael sylw, a hefyd byddai EDF wedi cynnal trafodaethau am fudd cymunedol yn wahanol. Unwaith bydd mwy o wybodaeth ar gael yn fewnol, bydd cyfle i drafod budd cymunedol ymhellach, ond bydd y cytundeb a'r ysgolion yn parhau.

Diolchwyd i'r cynrychiolwyr am eu hamser ac am fynychu'r cyfarfod. Bu cytuno bydd cyfarfaod pellach i drafod budd cymunedol mewn tua 6 wythnos pan fydd mwy o drafodaethau mewnlol wedi cymryd lle a mwy o wybodaeth i'w rannu.

Representatives of the Porthwen Solar Project were welcomed. They were thanked for sending a presentation for information prior to the meeting.

It was confirmed that the company had purchased the rights for a solar project from Countryside Renewables and that planning permission had already been granted. Delegates introduced themselves and their role in the development.

It was reported that the company is in the process of meeting with various stakeholders and a project stakeholder group will be formed shortly with various representatives. It was acknowledged that there had originally been some opposition to the project when Countryside Renewables was developing it.

Community benefit was briefly discussed. It was confirmed that EDF wanted to honour the agreement made with the schools, but also look at various other possible packages for the nearest communities. It was emphasised that business tax is paid to the government and not to the local community.

It was noted that the project would not be a major employer in the area. 2-3 maintenance jobs are expected. Specialist staff will be based at the renewable energy centre in Aberystwyth (also maintaining EDF turbines).

The project boundaries were confirmed with some variation due to archaeological data in the southern part of the original site. It was confirmed that access to the site will be from the A5025 and exiting at the bottom of the site. There has been recognition of the need for improvements to the lanes including passing and waiting areas. It was noted that part of the site has been kept free of solar array panels due to the Rhyd y Groes turbines and the need to maintain them.

Preparatory work is expected to begin on site before the end of 2021, with the site developed and joining the grid and producing energy by September 2022.

An email received from Aled Morris Jones was read outlining a number of concerns that had been identified when the application was originally submitted. Derek Owen noted that he had been involved in community benefit discussions with the company, and that support for the schools had not been mentioned by the community council. Grant Folley acknowledged that many of the points raised by Aled Morris Jones were already being addressed, and also EDF would have approached community benefit differently. Once more information is available in-house, there will be an opportunity to discuss community benefit further, but the agreement with the schools will be honoured.

The delegates were thanked for their time and for attending the meeting. It was agreed that there will be further meetings to discuss community benefit in about 6 weeks when more internal discussions have taken place and more information available to share.

4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf/Minutes of the Last Meeting

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, cynnig Brian Potter, eilio Carys Davies. *Minutes of the meeting were approved, proposed Brian Potter, seconded Carys Davies.*

5 Materion yn Codi o'r Cofnodion/Matters Arising from the Minutes

Dim/None

6 Diweddariadau/Updates

6.1 Cyllid a Personel/Finance and Personnel

Cafwyd crynoeb o'r cyfarfod gan Carys Davies. Cafwyd wybod bod cofrestru asedau'r cyngor yn dal if od yn nwylo'r cyfreithwyr. Ni does gwybodaeth pellach am y fynwent nac am Gwaith Brics nac ychwaith am faterion yn Nyffryn Wygyr. Cadarnhawyd derbyn cytundeb wedi ei arwyddo gan y Clwb Ffitrwydd.

Cymeradwywyd nifer o daliadau a bu derbyn adroddiad misol a chwarterol er gwybodaeth. Bu'r pwyllgor gytuno i Playquest fynd ymlaen a'r gwaith i drin yr offer chwarae coed yn y cae chwarae, bydd newid y darnau sydd angen sylw gyda darnau plastic wedi ei ailgylchu. Mae disgwyl mwy o brisiau am dynnu y zip wire a diogelu'r ardal. Cadarnhawyd bod arwyddion cwn wedi eu derbyn ar gyfer y cae chwarae, prom a Dyffryn Wygyr. Bu nodi bod disgwyl mwy o brisiau i osod byrddau picnic ger yr afon a'r prom.

Bu cydnabod derbyn dogfennau'r archwiliad allannol a bu nodi cynnwys yr adroddiad. Ni fu cwestiynnau yn codi.

Carys Davies summarised the meeting. It was reported that the registration of the council's assessments remains in the hands of the solicitors. There is no further information about the cemetery, brickworks or issues in the Wygyr Valley. It was confirmed that a contract had been signed by the Fitness Club.

A number of payments have been approved and a monthly and quarterly report was been received for information. The committee agreed for Playquest to proceed with the treatment of the timber play equipment in the playground, replacing the pieces that need attention with recycled plastic parts. More quotes are expected for removing the zip wire and making safe. It was confirmed that dog signs had been received for the playing field, prom and Wygyr Valley. It was noted that more prices were expected to install picnic tables by the river and prom.

The receipt of external audit documentation was acknowledged and the contents of the report noted. No questions arose.

6.2 Parciau a Mannau Agored/Parks and Open Spaces

Ni fu diweddariad pellach i'r hyn oedd wedi ei adrodd gan y pwyllgor cyllid. Cytuno bydd angen cyfarfod ffurfiol y pwyllgor yn fuan.

There was no further update on what had been reported by the finance committee. Agree that a formal committee meeting will be arranged soon.

6.3 Pwyllgor yr Harbwr/Harbour Committee

Cadarnhawyd bod adroddiad wedi ei anfon i'r aelodau cyn y cyfarfod er gwybodaeth. Cafwyd wybod bod y meddalwedd CCTV yn gweithio ar y tabled ond nid ar y gliwiadur.

Cafwyd wybod bod dau unigolyn (pysgotwyr masnachol) heb gwblhau'r dogfennau perthnasol na dangos tystiolaethu bod wedi yswirio hyd yma. Mae ganddynt 14 diwrnod i gydymffurfio.

Bu nodi bod sedd wag ar y pwyllgor erbyn hyn. Cytuno cadarnhau aelodaeth pwyllgorau yn y cyfarfod blynyddol mis nesaf.

It was confirmed that a report had been sent to members prior to the meeting for information. It was reported that the CCTV software works on the tablet but not on the laptop. It was reported that two individuals (commercial fishermen) had not completed the relevant documentation or shown evidence of insuring to date. They have 14 days to comply.

It was noted that there was now a vacancy on the committee. Agree to confirm committee membership at next month's AGM.

6.4 Pwyllgorau Allanol/*External Meetings* Dim/*None*

7 Cynllunio/Planning

7.1 Ceisiadau/*Applications*

Cyflwynwyd dau gais cynllunio i'w hystyried. Cadarnhaodd y clerc bod manylion pob un wedi'u hafnon at yr holl aelodau cyn y cyfarfod. Bydd yr aelodau yn cysylltu a'r clerc gyda'u sylwadau.

Two planning applications were presented for consideration. The clerk confirmed that the details for each had been forwarded to all members prior to the meeting. Members to contact the clerk with their observations following the meeting.

- Ger y Mor
- Cae Owain

7.2 Penderfyniadau CSYM/*IACC Decisions*

Rhoddyd gwybod i aelodau am benderfyniadau a ganlyn yr awdurdod cynllunio:
Members were informed of the planning authority's decisions as follows:

- Llwyn Teg, Ffordd Caergybi (HHP/2021/63) – caniatad / approved
- Arawa, 21 Gwelfor (HHP/2021/13) – caniatad / approved
- 22 Gwelfor (HHP/2021/38) – caniatad / approved

7.3 Gorfodaeth/*Enforcement*

Ni chafwyd y sefyllfa ddiweddaraf gan y Cyngor Sir
No update was provided by IACC.

8 Gohebiaeth/Correspondence

Nododd y clerc bod unrhyw ohebiaeth gyffredinol wedi'i hafnon at yr aelodau trwy e-bost wrth iddynt gael eu derbyn. Bu cwestiwn godi am drefniadau cyfarfodydd yn sgil covid. Cadarnhawyd bod disgwyl canllaw pellach a dofgen ddrafft er mwyn diweddarau rheolau sefydlog y cyngor yn unol a'r ddeddf diweddaraf.

The clerk noted that any items of general correspondence had been forwarded to members by email as received. The question was raised as to meeting arrangements as a result to covid. It was confirmed that further guidance was expected along with a draft document to update the councils' standing orders in line with updated legislation.

9 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- 9.1 Nododd Enid Jones fod angen gweithredu gan IACC o hyd i fynd i'r afael â materion parcio ar Lon Sgotland Bach. Codwyd pryder ynghylch mynediad brys i gerbydau pan fydd ceir yn cael eu parcio / gadael ar hyd yr ymyl.

Enid Jones noted that action was still required by IACC to address parking issues on Lon Sgotland Bach. Concern was raised as to emergency vehicle access when cars are parked/abandoned along the verge.

- 9.2 Cododd Carys Davies ymwybyddiaeth o dyllau yn y ffordd gan Glanrafon a'r gyffordd gan Castellior gan nodi bod wyneb y ffordd yn dirywio'n gyflym. Adroddwyd eisoes am yr ardaloedd hyn, Elfed Jones i fynd ar ôl y swyddogion perthnasol.

Carys Davies raised awareness of potholes by Glanrafon and the junction by Castellior noting that the road surface is deteriorating quickly. These areas have already been reported, Elfed Jones to chase up the relevant officers.

- 9.3 Nododd Elfed Jones fod plac er cof am Frank Egan i gael ei osod ar y fainc gan y ganolfan dreftadaeth. Ni fu gwrthwynebiad i'r Cyngor dalu am y plac, mae'r fainc wedi'i rhoi gan y Grŵp Hanes. Nodwyd bod teulu Frank hefyd yn edrych i osod mainc ger Eglwys Llanbadrig.

Elfed Jones noted that a plaque in memory of Frank Egan was to be installed on the bench by the heritage centre. No objection to the Council paying for the plaque, the bench has been donated by the History Group. It was noted that Frank's family was also looking to replace a bench by Llanbadrig Church.

- 9.4 Nododd Carys Davies fod IACC yn edrych i ail-wynebu llwybr ger yr afon (hen dramffordd) a bod trafodaethau ar y gweill i enwi'r pontydd yn y dyffryn. Cytunwyd i'r materion hyn gael eu trafod gan y pwyllgor parciau a mannau agored.

Carys Davies noted that IACC were looking to resurface a path by the river (old tramway) and that discussions were underway to name the bridges in the valley. Agreed these matters to be discussed by the parks and open spaces committee.

10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf drwy gynhadledd fideo – 18/5/2021. Bu atgoffa aelodau am y cyfarfod gyda swyddogion CSYM i drafod safle Wylfa Newydd 20/4/2021.

The next meeting will be held by video conference – 18/5/2021. Members were reminded about the meeting with IACC officers to discuss the Wylfa Newydd site 20/4/2021.

Bu'r cyfarfod orffen am 8.15yh / *The meeting closed at 8.15pm*

Derek Owen
Cadeirydd/Chair
Cyngor Cymuned Llanbadrig